CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU
PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

DYDDIAD 17 GORFFENNAF 2020

PWNC

POLISI GWEITHDREFNAU A GWRTHDARO BUDDIANNAU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL ANGENRHEIDIOL:

Cymeradwyo Polisi Gweithdrefnau a Gwrthdaro Buddiannau Partneriaeth Pensiwn Cymru

RHESYMAU:

Mae Polisi Gweithdrefnau a Gwrthdaro Buddiannau wedi'i ddatblygu ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ac mae agen i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ei gymeradwyo.

Awdur yr Adroddiad:	Swydd:	Rhif Ffôn: 01267 224160
Chris Moore	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol **Cyngor Sir Gâr**	**E-bost:** CMoore@sirgar.gov.uk

CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 17 GORFFENNAF 2020

POLISI GWEITHDREFNAU A GWRTHDARO BUDDIANNAU
PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

CRYNODEB BYR O DDIBEN YR ADRODDIAD

Mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru ddyletswydd ymddiriedol a chyfreithiol i weithredu er budd rhanddeiliaid a buddiolwyr y bartneriaeth, ond nid yw hyn yn atal Personél a Darparwyr y Bartneriaeth rhag bod â swyddogaethau neu gyfrifoldebau eraill a allai arwain at wrthdaro buddiannau. Mae'n bwysig y dilynir egwyddorion llywodraethu da ac y caiff polisi gweithdrefnau a gwrthdaro buddiannau, fel hwn, ei weithredu i amlinellu sut y caiff gwrthdaro ei adnabod, ei reoli a'i fonitro.

Mae'r polisi yn berthnasol i holl Bersonél a Darparwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'r rhestr gyfredol o Bersonél a Darparwyr y Bartneriaeth wedi ei hatodi. Bydd ar gael ar wefan y Bartneriaeth ac fe gaiff ei diweddaru yn ôl yr angen.

Hefyd mewn atodiad ceir copi o'r Gofrestr Gwrthdaro Buddiannau y bydd yr Awdurdod Lletyol yn ei chadw.

Caiff y Polisi ei adolygu'n ffurfiol gan y Gweithgor Swyddogion yn flynyddol a'i ddiweddaru os oes angen. Fodd bynnag, gellir adolygu neu ddiwygio'r Polisi yn amlach os bydd angen i'r Bartneriaeth ystyried canllawiau neu reoliadau perthnasol. Bydd Polisi'r Bartneriaeth yn eitem flynyddol ar agenda'r Cydbwyllgor Llywodraethu, a bydd hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn darparu tryloywder llwyr o ran gwrthdaro buddiannau o leiaf unwaith y flwyddyn.

A OES ADRODDIAD MANWL MEWN ATODIAD?	**OES**

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb **OES**	Cyfreithiol **DIM**	Cyllid **DIM**	Materion Rheoli Risg **DIM**	Goblygiadau Staffio **DIM**
Polisi Datblygwyd polisi gweithdrefnau a gwrthdaro buddiannau a fydd yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol, 1972 – Mynediad at Wybodaeth Rhestr o Bapurau Cefndirol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn: RHODDIR MANYLION Y RHAIN ISOD		
Teitl y Ddogfen	**Cyfeirnod y Ffeil**	**Lleoliadau y mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio / DOLEN GWEFAN**